WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2019 – **Addysg a Gwella Iechyd Cymru**


Blwyddyn archwilio: 2019

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1662A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflwynodd y gwaith yn cynnwys Andrew Strong, Clare James, Dave Burridge ac Urvisha Perez

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Cefndir 4

Prif gasgliadau 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

**Llywodraethu:** Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu arweinyddiaeth gref ac yn gweinyddu eu busnes yn dda, ond mae risg, sicrwydd bwrdd, rheoli perfformiad a llywodraethu gwybodaeth yn feysydd i'w datblygu ymhellach 9

**Cynllunio strategol:** Mae gweledigaeth glir ac amcanion strategol ar waith gyda chynlluniau i lunio Cynllun Tymor Canolig Integredig ond mae cefnogi cynlluniau gweithredol a monitro cyflawniad y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn feysydd i weithio arnynt ymhellach 17

**Rheoli adnoddau ariannol:** Mae rheolaethau a pholisïau ariannol ar waith, mae gwelliannau i adroddiadau ariannol yn parhau ac mae gwaith i gryfhau'r broses o reoli asedau a chontractau wedi cychwyn 21

**Rheoli cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu:** Mae gwaith ardderchog o ymgysylltu â staff wedi helpu i ysgogi diwylliant cadarnhaol ac mae cynlluniau ar waith i wella trefniadau rheoli'r gweithlu 26

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â’r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig 2019 yr Archwilydd Cyffredinol yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Gwnaed y gwaith i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau.

2 Gan fod AaGIC yn gorff newydd yn y GIG, rydym wedi mynd ati mewn ffordd wahanol o’i gymharu â chyrff eraill y GIG eleni. Cwblhawyd ein gwaith mewn dau gam. Adolygiad sylfaenol a edrychodd ar gynnydd AaGIC yn ystod ei wyth mis cyntaf oedd cam 1. Adroddwyd y canfyddiadau yn anffurfiol i AaGIC yn ystod sesiwn datblygu'r bwrdd ym mis Mehefin 2019. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau cam 2 sy'n adeiladu ar ganfyddiadau'r adolygiad sylfaenol ac yn eu dilyn.

3 Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi cynnwys cyfweliadau â swyddogion ac Aelodau Annibynnol, arsylwadau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd a’r pwyllgorau ac adolygiadau o ddata ariannol, perfformiad a dogfennau perthnasol.

4 Mae prif bwyslais yr asesiad strwythuredig ar y trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r adroddiad yn casglu ein canfyddiadau o dan bedair thema: trefniadau llywodraethu, cynllunio strategol, rheoli adnoddau ariannol a rheoli'r gweithlu.

## Cefndir

5 Sefydlodd Llywodraeth Cymru AaGIC i weithredu fel Awdurdod Iechyd Arbennig ym mis Hydref 2018 trwy ddod â thri sefydliad rhagflaenol at ei gilydd: Deoniaeth Cymru, Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygu GIG Cymru, a Chanolfan Addysg Fferylliaeth Broffesiynol Cymru. Gan mai AaGIC yw’r unig Awdurdod Iechyd Arbennig yn GIG Cymru, mae'n eistedd ochr yn ochr â'r saith bwrdd iechyd a'r tair ymddiriedolaeth GIG yn rhan o deulu'r GIG. Swyddogaeth AaGIC yw arwain ym maes addysgu, hyfforddi a datblygu, a llunio gweithlu gofal iechyd Cymru, er mwyn helpu i ysgogi gofal o ansawdd uchel ar gyfer pobl Cymru.

6 Yn wreiddiol, cafodd pwyslais gwaith AaGIC ei lywio gan y Llythyr Cylch Gwaith a gafodd oddi wrth Lywodraeth Cymru. Nododd y llythyr hwn naw maes allweddol y dylid canolbwyntio arnynt gan gynnwys dealllusrwydd, cynllunio a gwella'r gweithlu; comisiynu addysg; a gyrfaoedd a hybu’r gallu i ddefnyddio gwasanaethau. Roedd y llythyr, a gyhoeddwyd pan oedd AaGIC yn ifanc, yn cydnabod ei fod yng nghanol cyfnod trosiannol.

7 Cynhaliwyd ein hadolygiad sylfaenol oddeutu chwe mis ar ôl sefydlu AaGIC er mwyn darparu sylwadau anffurfiol cynnar ynghylch a oedd y trefniadau

corfforaethol craidd ar waith er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

8 Canfuom fod AaGIC yn canolbwyntio'n gryf ar ddiwylliant a gwerthoedd sefydliadol, a oedd wedi bod wrth wraidd ei gynnydd hyd yma. Dangoswyd hyn gan lefelau uchel o ymgysylltiad â staff, ymagwedd golegol a hyblyg tuag at weithio, ac arweinyddiaeth gref a chefnogol. Roedd polisïau a gweithdrefnau allweddol ar waith a gweledigaeth sefydliadol glir wedi ei chyfathrebu.

9 Nodwyd gennym mai'r prif feysydd i'w gwella oedd y trefniadau rheoli risg a pherfformiad, gan gynnwys datblygu cynlluniau gweithredol, ond nodwyd bod cynlluniau datblygu ar waith, a bod y cyflymdra'n dechrau cynyddu yn y meysydd hyn.

10 Bodlonodd AaGIC ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2018-19, gyda refeniw bach o danwariant. Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at AaGIC ym mis Medi 2019 i gadarnhau mai 'trefniadau arferol' oedd ei statws Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar y Cyd[1]. Nododd y llythyr fod AaGIC wedi dechrau'n dda ar ôl goresgyn rhai anawsterau cychwynnol. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod gan AaGIC gynllun blwyddyn (2019-20) cymeradwy a'i fod wrthi'n datblygu cynllun tymor canolig integredig tair blynedd ar gyfer 2020-23.

# Prif gasgliadau

11 Ein casgliad cyffredinol yn sgil gwaith asesu strwythuredig 2019 yw **bod arweinyddiaeth gref a threfniadau cadarn wedi cefnogi busnes effeithiol a diwylliant staff cadarnhaol yn 2019. Mae cynllun blwyddyn ar waith a gwnaed cynnydd da ar y cynllun tair blynedd ar gyfer 2020-23 hyd yma. Mae cyfleoedd gwella'n bodoli er mwyn ffurfioli a gwella'r trefniadau sicrwydd.**

12 Nodir crynodeb o'n prif gasgliadau isod, a disgrifir y canfyddiadau sy'n ategu'r rhain yn fanylach yn yr adroddiad manwl:

13 **Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu arweinyddiaeth gref ac yn gweinyddu eu busnes yn dda, ond mae risg, sicrwydd bwrdd, rheoli perfformiad a llywodraethu gwybodaeth yn feysydd i'w datblygu ymhellach.** Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn dangos arweinyddiaeth gref, golegol a ategir gan brosesau gweinyddol effeithiol a strwythur sefydliadol cadarn. Gellir gwella'r trefniadau rheoli risg, ac mae angen gweithio ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn nodi a mapio ffynonellau sicrwydd allweddol. Mae rheolaethau mewnol yn darparu rhywfaint o'r sicrwydd sydd ei angen ond mae angen gwneud mwy o waith datblygu, yn enwedig ar gyfer y fframwaith rheoli perfformiad a'r broses o lywodraethu gwybodaeth.

[1] Rydym yn cyfarfod â Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru ddwywaith y flwyddyn i asesu holl gyrff y GIG o'u cymharu â'r Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar y Cyd.

14 **Mae gweledigaeth glir ac amcanion strategol ar waith gyda chynlluniau i lunio Cynllun Tymor Canolig Integredig ond mae cefnogi cynlluniau gweithredol a monitro cyflawniad y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn feysydd i weithio arnynt ymhellach.** Ceir gweledigaeth glir a ategir gan amcanion strategol a dull dysgu ac ymgysylltu parhaus o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Er bod yr amserlenni'n dynn, mae trefniadau ar waith i sicrhau y deellir y galw a'r capasiti a bod cynlluniau galluogi wedi eu hintegreiddio, er bod angen gwaith ar y cynlluniau Digidol a TG. Mae angen trefniadau sydd wedi eu cofnodi ar gyfer goruchwylio a chraffu ar y perfformiad o'i gymharu â'r amcanion a'r cynlluniau strategol, yn ogystal â dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau clir.

15 **Mae rheolaethau a pholisïau ariannol ar waith, mae gwelliannau i adroddiadau ariannol yn parhau ac mae gwaith i gryfhau'r broses o reoli asedau a chontractau wedi cychwyn.** Er gwaethaf problemau staffio cynnar, mae rheolaethau a pholisïau ariannol allweddol wedi eu blaenoriaethu trwy adrodd i'r Bwrdd yn amserol. Gwneir gwaith ychwanegol mewn cysylltiad â rheoli asedau a chontractau er mwyn hwyluso'r broses o gynllunio, llywodraethu a defnyddio asedau'n dda, gan barhau i ddatblygu adroddiadau ariannol i'r Bwrdd.

16 **Mae gwaith ardderchog o ymgysylltu â staff wedi helpu i ysgogi diwylliant cadarnhaol ac mae cynlluniau ar waith i wella trefniadau rheoli'r gweithlu.** Ceir pwyslais cryf ar ddiwylliant sefydliadol, ymgysylltu â staff, a lles y staff. Mae'r ôl-groniad o arfarniadau swyddi wedi ei glirio ac mae strategaethau ar waith i reoli swyddi gwag. Mae cynlluniau hyfforddi a datblygu yn mynd rhagddynt ac mae gwaith wedi'i gynllunio i wella'r lefelau o arfarniadau staff a gofnodir a'r hyfforddiant statudol a gorfodol a gwblheir.

# Argymhellion

17 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn Arddangosyn 1. Byddwn yn cyhoeddi ymateb y rheolwyr ynghyd â'n hadroddiad ar ôl i'r pwyllgor perthnasol ei dderbyn.

18 Rydym hefyd wedi cynnwys cynnydd ar bwyntiau dysgu ein Hadolygiad Sylfaenol yn adran berthnasol yr adroddiad manwl.

Arddangosyn 1: Argymhellion 2019

| Argymhellion |
|---|
| **Llywodraethu** |
| **Cynnal Busnes yn Effeithiol**<br>A1 O gofio bod y newid yn gyflym yn nhrefniadau gweithredu a llywodraethu AaGIC, dylai AaGIC adolygu goruchwyliaeth y Bwrdd a'r pwyllgorau i sicrhau y cwmpesir hyd a lled eu gwaith ac nad oes unrhyw fylchau yn y trefniadau craffu.<br>**Rheoli risg er mwyn cyflawni blaenoriaethau strategol**<br>A2 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd AaGIC yn nodi'n glir beth y dylai Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ei wneud a'r prosesau dan sylw. Nawr dylai AaGIC greu'r map sicrwydd sy'n ofynnol drwy gynnal proses i nodi a mapio'r rheolaethau a'r ffynonellau sicrwydd allweddol o'u cymharu â'r prif risgiau tuag at gyflawni ei amcanion strategol.<br>A3 Dylai AaGIC wella ei drefniadau rheoli risgiau drwy bennu a chyfleu ei barodrwydd i dderbyn risg yn glir er mwyn sicrhau ymagwedd gyson o ran:<br>a) goddef risgiau;<br>b) asesu a sgorio risgiau; ac<br>c) uwchgyfeirio/dileu risgiau i/oddi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.<br>**Ymgorffori system sicrwydd gadarn**<br>A4 Dylai AaGIC gofnodi ei fframwaith rheoli perfformiad, gan nodi:<br>a) trefniadau rheoli perfformiad gweithredol a llinellau atebolrwydd; a<br>b) beth a adroddir i bwy ac erbyn pryd, a goruchwyliaeth y Bwrdd / Pwyllgor mewn cysylltiad â rheoli perfformiad.<br>A5 Dylai AaGIC gryfhau ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch drwy:<br>a) benodi rheolwr llywodraethu gwybodaeth a diogelu data amser llawn er mwyn cwblhau cynllun gweithredu GDPR a gweithio tuag at gydymffurfiaeth lawn;<br>b) datblygu ac adrodd ar wybodaeth llywodraethu dangosyddion perfformiad allweddol;<br>c) sicrhau ardystiadau mewn trefniadau seiberddiogelwch;<br>d) sefydlu adnoddau seiberddiogelwch effeithiol ac arbenigedd er mwyn rheoli risgiau;<br>e) cofnodi cynllun ymateb i ddigwyddiadau seiberddiogelwch er mwyn rheoli ymosodiadau; a<br>f) chwblhau yn gyflym ei gamau gweithredu a gynlluniwyd ac a flaenoriaethwyd. |

| Argymhellion |
| --- |
| **Cynllunio Strategol** |
| **Datblygu Cynlluniau Strategol**<br>A6 Dylai AaGIC gryfhau ei ddull strategol o gyflawni digidol a TG trwy:<br>a) ddatblygu a chymeradwyo strategaeth Ddigidol a TG;<br>b) ystyried y capasiti presennol i gyflawni swyddogaeth y Pennaeth Digidol ac a oes angen penodi rhywun i'r swydd;<br>c) datblygu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol TG er mwyn herio a chraffu.<br>**Monitro cyflawniad**<br>A7 Nid yw AaGIC wedi nodi fframwaith er mwyn monitro perfformiad o'i gymharu â'i amcanion strategol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a dylai:<br>a) gofnodi trefniadau'n ffurfiol er mwyn goruchwylio a chraffu ar y perfformiad o'i gymharu â'r amcanion strategol; a<br>b) gweithio'n gyflym i ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau sydd wedi eu cysylltu'n glir ag amcanion strategol, a gall y Bwrdd graffu ar y perfformiad a'i gymharu â hyn. |

# Adroddiad manwl

## Llywodraethu

19 Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi edrych ar drefniadau llywodraethu AaGIC. Edrychwyd ar y modd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cynnal eu busnes, ac i ba raddau y mae strwythurau a threfniadau sefydliadol yn cefnogi trefniadau llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Fe wnaethom ni ystyried yr wybodaeth y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn ei chael i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad ac i fonitro cyflawniad amcanion y sefydliad. Fe wnaethom ni adolygu hefyd sut y mae AaGIC wedi gwella pwyntiau dysgu o'n hadolygiad sylfaenol.

20 Yn 2019, fe wnaethom ganfod **bod y Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu arweinyddiaeth gref ac yn gweinyddu eu busnes yn dda, ond bod risg, sicrwydd bwrdd, rheoli perfformiad a llywodraethu gwybodaeth yn feysydd y dylid eu datblygu ymhellach.**

21 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn dangos arweinyddiaeth gref, golegol a ategir gan brosesau effeithiol a strwythur sefydliadol cadarn. Gellir gwella'r trefniadau rheoli risg, ac mae angen gweithio ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn nodi a mapio ffynonellau sicrwydd allweddol. Mae rheolaethau mewnol yn darparu rhywfaint o'r sicrwydd sydd ei angen ond mae angen rhagor o waith datblygu, yn enwedig ar gyfer y fframwaith rheoli perfformiad a'r broses o lywodraethu gwybodaeth.

### Cynnal busnes yn effeithiol

Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn dangos arweinyddiaeth gref a cholegol gan ganolbwyntio ar ddysgu parhaus. Mae trefniadau gweinyddol clir a chynhwysfawr ar waith er bod cyfle i adolygu goruchwyliaeth y Bwrdd a'r pwyllgor i sicrhau nad oes unrhyw feysydd gweithredol yn cael eu hepgor o'r gwaith craffu

#### Y Bwrdd a'r pwyllgorau

22 Mae Bwrdd a phwyllgorau AaGIC yn dangos arweinyddiaeth gref gyda dull colegol yn y fforymau hyn ac ar eu traws. Roedd ein harsylwadau yn dangos bod gan aelodau annibynnol wybodaeth ardderchog am y busnes, a dull heriol sy'n canolbwyntio ar atebion o gynorthwyo swyddogion. Cynhelir y cyfarfodydd yn dda, gyda sgiliau cadeirio da ac amser ar gyfer trafodaethau brwd, a gynorthwyir gan ddull templed ar gyfer papurau a disgwyliadau clir ar gyfer swyddogion sy'n cyflwyno.

23 Mae Bwrdd sefydlog ar waith, sy'n cynnwys saith aelod annibynnol a phum gweithredwr. Ceir dull rhagweithiol a pharhaus o ddatblygu aelodau annibynnol, gan gynnwys cyfarfodydd unigol â'r Cadeirydd, sesiynau datblygu'r Bwrdd, a chyrsiau cyflwyno mewnol. Mae straeon ynghylch gwelliannau i'r gwasanaethau yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac er mai dim ond un pwyllgor sydd wedi cynnal hunanasesiad hyd yma, mae cynlluniau ar y gweill i'r Bwrdd a'r pwyllgorau eraill wneud hynny yn 2020. Mae gan bob aelod annibynnol swyddogaeth hyrwyddwr i ddatblygu dealltwriaeth o'r Bwrdd a darparu persbectif ychwanegol ohono.

24 Gwelsom ddull ymatebol o ymdrin â materion, er enghraifft sefydliad y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd newydd yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r ddau bwyllgor statudol sef y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd statudol, a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth, er mwyn lliniaru'r risg o wrthdaro buddiannau. Ailystyriodd dogfen A Way of Workings gylch gorchwyl y pwyllgorau i sicrhau bod ffiniau clir yn cael eu gosod, yn enwedig o ran sicrwydd risg. Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl clir, cynlluniau gweithredu a rhaglenni gwaith i gefnogi trefn lywodraethu effeithiol. Nodwn, er

mai’r Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd sy'n gyfrifol am graffu ar risg a sicrwydd risg yn ei gylch gwaith, nad oes eitem sefydlog ar gyfer adolygu risgiau ar ei agenda.

25 O gofio bod y trefniadau gweithredol a’r drefn lywodraethu yn newid yn gyflym yn AaGIC ar hyn o bryd, rydym yn annog adolygiad o oruchwyliaeth y Bwrdd a'r pwyllgorau i sicrhau bod holl waith AaGIC yn cael ei gwmpasu gan un o'r fforymau hyn ac nad oes unrhyw fylchau. Dylid cysylltu’r gwaith hwn â'n sylwadau yn nes ymlaen, ynglŷn â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

### Trefniadau sy'n cefnogi'r Bwrdd

26 Pontiodd AaGIC yn dda wrth symud o'r cysgod i fod yn gorff gweithredol a rhoddodd drefniadau craidd ar waith yn gyflym. Mae rheolau sefydlog clir gan gynnwys cynllun dirprwyo ar waith ac fe'u diweddarwyd yn amserol drwy gydol 2019 i adlewyrchu newidiadau megis newidiadau i strwythurau pwyllgorau ac awdurdodau er mwyn cymeradwyo gwariant, er ein bod yn nodi nad yw’r swyddogaethau hyrwyddo aelodau annibynnol wedi eu cynnwys yn y cynllun dirprwyo. Mae’r rheolau sefydlog a’r cyfarwyddiadau ariannol ar gael ar wefan AaGIC. Mae'n ofynnol i adrodd tramgwyddau i Ysgrifennydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac yna i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ac fe wnaethom arsylwi bod un gweithred tendr sengl wedi’i adrodd yn ystod y flwyddyn. Adroddwyd cofrestr o’r holl weithredoedd tendrau sengl a dyfynbris i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Tachwedd a dylid ei defnyddio i olrhain y defnydd a wneir ohonynt a nodi materion ehangach. Efallai y bydd ein canllaw byr ar ddefnyddio gweithredoedd tendrau sengl yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor Archwilio: Sicrhau gwerth am arian yn y defnydd o weithredoedd tendrau sengl.

27 Mae cofrestr polisi ar waith bellach sy'n rhestru'r holl bolisïau ynghyd â data allweddol er mwyn galluogi adolygiadau, diweddariadau a gohebiaeth amserol. Aethpwyd ati mewn ffordd synhwyrol i sicrhau bod y rhain ar waith drwy fabwysiadu polisïau priodol ar gyfer Cymru gyfan, ac wedyn gweithio ar bolisïau penodol AaGIC yn ystod y flwyddyn.

28 Mae trefniadau i hybu uniondeb a phriodoldeb ar waith. Mae Cofrestrau Buddiannau a Rhoddion a Lletygarwch ar waith a chânt eu hadolygu gan y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn rheolaidd. Adolygwyd y Gofrestr o Fuddiannau gyfan (y Bwrdd a'r staff) ym mis Tachwedd 2019. Mae Polisi Chwythu'r Chwiban ar waith ynghyd â pholisïau gonestrwydd allweddol eraill megis defnyddio e-bost a'r rhyngrwyd.

### Y cynnydd ar bwyntiau dysgu'r adolygiad sylfaenol

29 Yn ein hadolygiad sylfaenol, amlygwyd y pwyntiau dysgu canlynol gennym mewn cysylltiad ag ymddygiad busnes. Mae Arddangosyn 2 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 2: Ymddygiad busnes effeithiol: pwyntiau dysgu

| Pwynt dysgu | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| **Y Bwrdd o’i gymharu â sesiwn datblygu'r Bwrdd**<br>Sicrhau bod aelodau annibynnol yn deall eu swyddogaethau a’u swyddi wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd Bwrdd o’u cymharu â Sesiynau Datblygu’r Bwrdd. | Mae tystiolaeth bod aelodau annibynnol bellach yn gyfforddus gyda'r ddau fforwm a'u diben. |

| Pwynt dysgu | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| **Tryloywder cyfarfodydd pwyllgor**<br>Er mwyn gwella tryloywder, dylid sicrhau bod manylion cyfarfodydd a phapurau pob cyfarfod pwyllgor (agored) ar gael ar wefan AaGIC. | Mae holl ddyddiadau a dogfennau'r pwyllgor ar gael yn amserol ar y wefan bellach. |
| **Mapio strwythur llywodraethu**<br>Fel y nodwyd gan yr archwiliad mewnol, dylai AaGIC fapio sut y mae'r Bwrdd, y pwyllgorau a'r grwpiau cynghori yn cysylltu â'i gilydd. Bydd hyn yn helpu i dynnu sylw at unrhyw fylchau o ran sicrwydd. | Cafodd diagram sylfaenol ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd a'i dri phwyllgor. **Gellid defnyddio'r map o gysylltiadau ar gyfer y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd newydd fel templed ar gyfer map ehangach i nodi sut y mae pwyllgorau yn cysylltu â'i gilydd ac yn rhyngweithio, gan gynnwys sut y mae grwpiau llywio yn adrodd i bwyllgorau. Gweler argymhelliad 1.** |
| **Cynllun dirprwyo**<br>Diweddaru'r Cynllun Dirprwyo i gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau hyrwyddo aelodau annibynnol. | Nid yw swyddogaethau hyrwyddo wedi eu cynnwys. **Byddai'n arfer da cynnwys swyddogaethau hyrwyddo yn y cynllun dirprwyo.** |
| **Cofrestr o'r gweithredoedd tendrau sengl/dyfynbris**<br>Dylid cadw cofrestr o'r gweithredoedd tendrau sengl/dyfynbris a'i hadolygu o bryd i'w gilydd. | Mae'r rhain yn cael eu cadw gan dîm caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a byddant yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.<br>Cyflwynwyd cofrestr i'r pwyllgor ym mis Tachwedd.<br>Mae'n arfer da cadw cofrestr o'r fath a'i hadrodd o leiaf unwaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i olrhain defnydd ac i nodi materion ehangach. |

## Rheoli risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol

Mae gan AaGIC fframwaith rheoli risgiau er bod rhai o'r cofrestrau risg yn anghyflawn; ni ddiffinnir parodrwydd i dderbyn risg ac nid yw'r rheolaethau a'r sicrwydd sy'n sail i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ddigon clir

30 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ffordd strwythuredig o nodi ac o fapio'r risg allweddol i gyflawni pob un o'r amcanion strategol, y rheolaethau penodol sydd ar waith i liniaru'r risgiau hynny, a'r ffynonellau sicrwydd ar gyfer pob un ohonynt. Mae hyn yn creu map sicrwydd, sy'n gwneud ei gwneud yn bosibl i gyfochri â goruchwyliaeth y pwyllgor o risgiau a sicrwydd.

31 Cymeradwyodd y Bwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd AaGIC ym mis Medi 2019, a bydd y Bwrdd a'r pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ei adolygu'n flynyddol. Er ei fod yn nodi'n glir yr hyn y dylai Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ei wneud a'r broses yn gyffredinol, nid oes unrhyw dystiolaeth o'r gwaith mapio y disgwyliwn ei weld. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cyfeirio'r darllenydd at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Er bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi risgiau allweddol a sut y gellid lliniaru'r risgiau hynny, nid yw'n darparu'r map sicrwydd a ddisgwylid gan Fframwaith Sicrwydd y

Bwrdd. Er mwyn i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd fod yn effeithiol, mae'n rhaid i AaGIC fod â dealltwriaeth dda o'r llifau sicrwydd o dimau gweithredol hyd at y Bwrdd a'r pwyllgorau gan fapio'r rhai hynny sy'n darparu ffynonellau sicrwydd allweddol ar reolaethau dros y risgiau allweddol i amcanion strategol. Er bod gan AaGIC lawer o'r elfennau hyn, mae angen dod â nhw at ei gilydd mewn map sicrwydd sydd hefyd yn nodi unrhyw fylchau a mesurau ar gyfer eu pontio. Dylai'r Bwrdd adolygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod sicrwydd yn cael ei gydgysylltu'n effeithiol.

32 Estyniad naturiol o'r broses o reoli risgiau yw trefniadau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac, i fod yn llwyddiannus, maent yn ddibynnol ar drefniadau rheoli risgiau da. Mae gan AaGIC bolisi rheoli risgiau ac mae'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau wedi eu nodi. Cafodd y Bwrdd hyfforddiant rheoli risgiau ym mis Chwefror 2019, a ddilynwyd yn fwy diweddar gan yr uwch dîm arwain. Cafwyd ymateb da i'r hyfforddiant a bydd yn cael ei gyflwyno ymhellach. Mae AaGIC yn gweithredu proses rheoli risgiau ar bapur, ac ar ôl ystyried defnyddio system rheoli risgiau DATIX penderfynodd y byddai'n anghymesur i'r angen.

33 Adroddir y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn fanwl i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, a chaiff ei hadolygu bob mis gan y tîm arwain gweithredol a'r uwch dîm arwain. Dylai Cofrestr Risgiau Corfforaethol gynnwys risgiau strategol a nodir gan y Bwrdd a'r rhai a nodir gan gyfarwyddiaethau y bydd angen eu huwchgyfeirio (a allai fod yn weithredol). Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r holl gofrestrau risgiau gweithredol ar waith a gwaith ar y gweill yw rhai ohonynt, e.e. Digidol a TG. Mae ein hadolygiad o gofrestrau a pholisïau a thrafodaethau gyda swyddogion yn nodi na ddeellir yn glir y parodrwydd i dderbyn risg ac nad yw'n cael ei ddefnyddio. Mae hyn yn allweddol er mwyn sicrhau dull cyson o uwchgyfeirio a dileu risgiau o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar draws AaGIC. Mae adolygiad o rai cofrestrau risgiau yn nodi y byddai'n fanteisiol cynnwys y nodweddion canlynol: dyddiad nodi'r risg; y tuedd Coch Melyn Gwyrdd; y pwyllgor sy'n goruchwylio; parodrwydd i dderbyn risg; y math o risg (fesul polisi rheoli risg). Efallai y bydd yn ddefnyddiol ystyried defnyddio templed cofrestr risgiau ar draws y sefydliad.

## Y cynnydd ar bwyntiau dysgu'r adolygiad sylfaenol

34 Yn ein hadolygiad sylfaenol, amlygwyd y pwyntiau dysgu canlynol gennym mewn cysylltiad â rheoli risgiau. Mae Arddangosyn 3 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

### Arddangosyn 3: Rheoli risgiau: pwyntiau dysgu

| Pwynt dysgu | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**<br>Gweithredu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (gyda risgiau wedi eu neilltuo) a chofrestrau'r cyfarwyddiaethau yn gyflym. | Mae dogfen Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi ei llunio ac mae'n cynnwys canllawiau defnyddiol ynghylch y dull o ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ond **nid oes unrhyw dystiolaeth bod gwaith mapio sicrwydd wedi ei wneud. Gweler argymhelliad 2.**<br>Gwnaed cynnydd o ran datblygu cofrestrau risgiau y cyfarwyddiaethau a'r timau. Wrth ddiweddaru cofrestrau **dylai AaGIC ystyried cynnwys y nodweddion canlynol: dyddiad nodi'r risg; y tuedd Coch Melyn Gwyrdd; y pwyllgor sy'n goruchwylio;** |

| Pwynt dysgu | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| | **goddefgarwch / parodrwydd; math (yn ôl polisi rheoli risg).** **Hefyd, gellid ystyried defnyddio templed cofrestru risgiau.** |
| **Hyfforddiant rheoli risgiau** Gwneud yn siŵr bod staff yn cael hyfforddiant priodol a chymorth parhaus i sicrhau dull cyson o reoli risgiau. | Mae hyfforddiant wedi ei gyflwyno i'r Bwrdd a'r uwch dîm arwain bellach ac fe'i croesawyd. |

## Ymgorffori system sicrwydd gadarn

Ategir system sicrwydd AaGIC gan fframweithiau rheoli perfformiad a llywodraethu gwybodaeth, er bod angen datblygu'r ddau ymhellach

### Rheoli perfformiad

35 Mae AaGIC yn gwneud cynnydd i gyrraedd ei darged o ran fframwaith rheoli perfformiad integredig erbyn 31 Mawrth 2020, er bod ganddo waith i'w wneud i gyflawni amcanion y fframwaith, a nodir yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2019-20. O ystyried sefyllfa unigryw AaGIC yng Nghymru, rydym yn cydnabod yr heriau y mae'n eu hwynebu wrth ddatblygu fframwaith o'r newydd: nid oes unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol na meincnodau cenedlaethol na gwaith dilysu data sylweddol i'w wneud ar ddata cyfredol yn yr adroddiad perfformiad. Mae'n ddealladwy bod AaGIC yn defnyddio 2019-20 fel blwyddyn datblygu a dylid darllen ein canfyddiadau yn y cyd-destun hwnnw.

36 Datblygwyd yr adroddiad perfformiad a'r dangosfwrdd gyda chyfraniadau gan y Bwrdd o fis Ionawr 2019 ymlaen, ac fe'u hadroddwyd yn ffurfiol i'r Bwrdd ym mis Medi 2019. Mae strwythur yr adroddiad yn glir ac yn dilyn yr amcanion a nodir yn y Cynllun Blynyddol er mwyn darparu sicrwydd ar: brosiectau a rhaglenni; ansawdd a chanlyniadau; perfformiad o ran addysg, hyfforddiant a datblygiad y gweithlu; llywodraethu a rheolaeth gorfforaethol. Er bod y cynnwys a'r cwmpas yn dal i gael eu datblygu, mae'n braf nodi bod AaGIC yn dechrau ystyried gwelliannau o ran mewnwelediad, gyda chynlluniau i adeiladu data hanesyddol, rhannu data yn drionglau a meddwl am gyfyngiadau rheoli.

37 Nododd ein hadolygiad o'r adroddiad perfformiad a'r dangosfwrdd ddiffyg data ynglŷn â chyllid, cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol/reolaethol a pherfformiad y gyfarwyddiaeth nyrsio (er ein bod yn cydnabod bod rhywfaint o'r data diwethaf hyn yn gylchol). Cawsom ein hunain yn gofyn y cwestiwn 'beth felly?' wrth ddarllen y data. Nid oedd unrhyw adroddiadau ynghylch eithriadau yn y data nac esboniadau ynghylch a oedd y data yn dda neu'n wael, na chrynodeb o'r camau ymatebol. Nid yw'n glir beth yw dangosyddion perfformiad allweddol na thargedau AaGIC, er ein bod ni'n deall bod meincnodau yn parhau er mwyn helpu i lywio targedau dangosyddion perfformiad allweddol. Er bod sylfaen gadarn i ddatblygu'r adroddiad a'r dangosfwrdd arni, mae llawer o waith i'w wneud, er ein bod ni'n cydnabod bod AaGIC yn ystyried y flwyddyn hon yn flwyddyn datblygu. Rydym yn deall bod rhai timau yn datblygu eu dangosfyrddau eu hunain a byddem yn eu hannog i sicrhau bod eu gwaith monitro eu hunain wedi'i gyfochri â'r adroddiadau yn yr adroddiad perfformiad a'r dangosfwrdd.

38 Er bod amserlen anffurfiol ar gyfer adrodd ar berfformiad yn fisol ac yn chwarterol, a chymorth a hyfforddiant da gan bartneriaid busnes a adroddir gan swyddogion, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fframwaith rheoli perfformiad sydd wedi ei gofnodi sy'n nodi cyfrifoldebau, adroddiadau, trefniadau uwchgyfeirio, llinellau atebolrwydd a goruchwyliaeth y Bwrdd / Pwyllgor.

### Y fframwaith rheoli ansawdd

39 Nid oes unrhyw gynlluniau i ddatblygu fframwaith ansawdd ar gyfer y sefydliad cyfan, yn lle hynny, mae AaGIC yn bwriadu ymwreiddio ansawdd i'r gwaith dyddiol, a'i fonitro drwy fframwaith rheoli perfformiad. Gan nad yw AaGIC yn darparu gwasanaethau rheng flaen y GIG, mae hyn yn ddull rhesymol i'w ddefnyddio a gellir ailedrych ar ei effeithiolrwydd yn y dyfodol.

40 Fel y byddem yn disgwyl, ceir fframwaith rheoli ansawdd sydd ar waith ar gyfer meysydd rheoleiddio (megis meddygol a deintyddol). Mae'n braf nodi bod swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn edrych ar welliannau i'r broses ac yn gweithio gyda'r Gyfarwyddiaeth Nyrsio er mwyn rhannu arferion da i'w helpu i ddatblygu ei fframwaith ei hun ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â rheoleidd-dra. Ceir trefniadau goruchwylio clir ar gyfer monitro ansawdd drwy'r Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd sydd newydd ei sefydlu a phwyllgor Cymorth Addysg o Safon i Ôl-raddedigion.

### Trefniadau llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch

41 Sefydlwyd Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth sy'n atebol i'r pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Hydref 2019, ac mae Uwch-swyddog Risg Gwybodaeth yn goruchwylio effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gwybodaeth. Fodd bynnag, mae trefniadau interim i reoli trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn ystod 2019 wedi effeithio ar gynnydd o ran datblygu fframwaith llywodraethu gwybodaeth effeithiol. Caiff y rheolwr llywodraethu gwybodaeth ei secondio yn rhan-amser ar hyn o bryd ac mae'r methiant diweddar i benodi rheolwr parhaol yn golygu y bydd y trefniadau interim yn parhau.

42 Mabwysiadodd AaGIC bolisïau TG Cymru gyfan lle bo hynny'n briodol, ac mae wedi cwblhau gwaith ar nifer o bolisïau TG, er enghraifft y polisïau diogelwch gwybodaeth a gwrthfeirysau, er yr ymddengys fod rhai ohonynt yn eisiau yn ôl y Gofrestr Polisi ddiweddaraf. Gwaith sy'n dal i fynd rhagddo yw cofrestr risgiau digidol a TG, ac mae'r broses o sgorio risg ac o baratoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn parhau i fod heb ei gwneud. Mae risgiau TG a digidol allweddol yn cynnwys gweithgareddau GDPR anghyflawn; rheoli'r bygythiadau o ymosodiadau seiber; swyddi gwag sy'n effeithio ar y galluedd digidol; a chytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer systemau gwybodaeth busnes allweddol.

43 Mae cynllun Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb TG wrthi'n cael ei ddatblygu ac mae angen gwneud mwy o waith i asesu effaith busnes pob system TG, rhestr o gysylltiadau, y lleoliad a'r gweithdrefnau wrth gefn a'r dyddiadau adolygu. Mae cynllun i brofi a gwerthuso'r cynllun adfer yn dal i fod heb ei wneud.

44 Mae capasiti'r adnoddau hefyd wedi effeithio ar y cynnydd o ran mynd i'r afael â gofynion llywodraethu y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae rhai camau wedi eu cymryd i ymateb i ofynion y GDPR trwy:

- sefydlu cynllun gweithredu GDPR a chynllun gwaith Llywodraethu Gwybodaeth;
- ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddiaethau gwblhau Cofrestrau Asedau Gwybodaeth;

- cwblhau hysbysiadau preifatrwydd ac asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd; a
- datblygu polisïau a gweithdrefnau, er enghraifft, protocol adrodd tramgwyddau, polisi diogelu data a pholisi llywodraethu gwybodaeth.

45 Nid yw AaGIC wedi cwblhau’r cynllun gweithredu GDPR, y cynlluniau gwaith Llywodraethu Gwybodaeth nac wedi gweithio tuag at gydymffurfiaeth lawn hyd yma. Mae'n cydnabod ei fod yn gallu blaenoriaethu sawl gweithgaredd llywodraethu gwybodaeth, a fyddai’n cynnwys cwblhau:

- Cofrestrau Asedau Gwybodaeth i nodi'r sail gyfreithiol dros brosesu gwybodaeth a'r angen am hysbysiadau preifatrwydd;
- penodi Swyddog Diogelu Data parhaol;
- datblygu'r gofrestr risgiau Llywodraethu Gwybodaeth, a rheolaeth hyd at y grŵp llywio Llywodraethu Gwybodaeth; a’r
- rhwydwaith o berchenogion a gweinyddwyr asedau gwybodaeth ar gyfer rheoli asedau a llifau gwybodaeth.

46 Mae hyfforddiant staff ar lywodraethu gwybodaeth yn hanfodol. Defnyddir y pecyn cymorth e-ddysgu Llywodraethu Gwybodaeth i Gymru gyfan i hyfforddi staff ar faterion llywodraethu gwybodaeth ac mae hyfforddiant blynyddol yn orfodol a chaiff cydymffurfiaeth ei monitro. Er bod y gyfradd gydymffurfio yn gwella, ym mis Tachwedd 2019, dim ond 53.6% oedd y ganran o’i gymharu â tharged dros dro (mae’n dal yn cael ei ystyried) o 75%. Hefyd, gellid cryfhau'r broses o fonitro perfformiad yn y grŵp llywio Llywodraethu Gwybodaeth a’r gwaith craffu ar lefel pwyllgorau trwy ddatblygu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol.

47 Mae Caldicott yn elfen allweddol o'r agenda Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfrinachedd yng Nghymru, sy’n darparu cyfres o argymhellion ac egwyddorion i helpu i sicrhau bod gwybodaeth a all adnabod rhywun yn bersonol a gwybodaeth sensitif yn cael eu diogelu'n ddigonol. Mae'n dda gweld bod yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth wedi ei benodi ar Lefel Uwch ac y bu’r Awdurdod yn rhagweithiol wrth gwblhau hunanasesiad Cyfrinachedd Gwybodaeth Caldicott ym mis Mawrth 2019 i asesu ei gymhwysedd. Mae cydymffurfiaeth yn dderbyniol ar 55% fel asesiad o’r lefel mynediad o gofio nad yw’r Awdurdod yn rheoli data cleifion yn uniongyrchol. Mae Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth GIG Cymru newydd yn disodli’r asesiadau Caldicott ac mae’n berthnasol i GIG Cymru cyfan a dylid ei gwblhau erbyn dechrau 2020.

48 Mae AaGIC yn cydnabod y risgiau posibl a all ddeillio o ymosodiadau seiberddiogelwch ac mae’n bwriadu sefydlu strategaeth amddiffyn rhag ymosodiadau seiber a rhaglen seibergadernid integredig ar draws y sefydliad. Ym mis Hydref 2019, mewn ymateb i ddiweddariad gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru nad oeddent wedi’u cefnogi’n llwyr o ran seiberddiogelwch, cyflwynwyd papur briffio i'r Swyddogion Gweithredol er mwyn codi ymwybyddiaeth o’r materion ac ychwanegwyd risg goch at y gofrestr risgiau corfforaethol yn ymwneud â'r canlyniadau pe na chymerir camau seiberddiogelwch digonol ac adroddwyd y risg hon i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Tachwedd.

49 Mae AaGIC yn bwriadu cymryd camau i gryfhau'r rhaglen seibergadernid yn 2020 a gefnogir gan adnoddau arbenigol a strwythur adrodd a llywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys: gweithio tuag at ardystiad megis y cynllun *cyber essentials*; recriwtio adnoddau seiber arbenigol; sefydlu cynllun ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau seiber; ac asesu bygythiadau seiber yn y gadwyn gyflenwi TG.

### Olrhain argymhellion

50 Mae olrheiniwr argymhellion wedi bod ar waith gan AaGIC ers mis Mai 2019. System bapur ydyw sy'n olrhain argymhellion archwilio mewnol ac allanol (Swyddfa Archwilio Cymru). Byddwn yn asesu effeithiolrwydd y broses olrhain hon y flwyddyn nesaf.

51 Nid oes unrhyw olrheiniwr ar waith ar hyn o bryd i fonitro'r broses o weithredu argymhellion ar gyfer cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol neu reoliadol ac fe anogwn AaGIC i sefydlu un.

### Y cynnydd ar bwyntiau dysgu'r adolygiad sylfaenol

52 Yn ein hadolygiad sylfaenol, amlygwyd y pwyntiau dysgu canlynol gennym mewn cysylltiad â systemau sicrwydd. Mae Arddangosyn 4 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 4: Gwella systemau sicrwydd: pwyntiau dysgu

| Pwynt dysgu | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| **Olrhain argymhellion**<br>Er bod archwiliadau mewnol ac allanol yn cael eu cofnodi yn olrheiniwr argymhellion AaGIC, dylid ehangu hyn i gynnwys argymhellion gan Lywodraeth Cymru ac eraill. | Mae'r olrheiniwr ar waith bellach, gan gynnwys argymhellion archwilio Mewnol ac Allanol. **Nid oes unrhyw dystiolaeth o olrheiniwr i fonitro camau gweithredu ar argymhellion rheoleiddio eraill megis cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol neu reoleiddiol. Dylai AaGIC ystyried sefydlu un.** |
| **Rheoli perfformiad**<br>Bydd angen i AaGIC sicrhau ei fod yn deall ei berfformiad yn ddigonol tra bod y dangosfwrdd perfformiad yn dal i gael ei ddatblygu. | Mae'r dangosfwrdd ar waith bellach ac yn cael ei adrodd i'r Bwrdd, er ei fod yn parhau i gael ei ddatblygu.<br>**Wrth i'r dangosfwrdd a'r adroddiad barhau i gael eu datblygu, dylai AaGIC ystyried digonolrwydd y cynnwys ar gyfer: cyllid; cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol/reolaethol; cynnwys y gyfarwyddiaeth nyrsio; adrodd ar eithriadau a'r cwestiwn 'beth felly?'; crynodeb o'r camau gweithredu ymatebol; dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau.** |

## Mae sicrhau cynllun sefydliadol yn cefnogi trefn lywodraethu effeithiol

### Ymddengys fod strwythurau cyfundrefnol AaGIC yn cefnogi trefn lywodraethu effeithiol gyda llinellau cyfrifoldeb clir, gwaith ffurfiol ac anffurfiol ar draws sefydliadau a gohebiaeth effeithiol

53 Mae gan AaGIC strwythur sefydliadol clir sy'n cael ei adolygu, ei ddiweddaru a'i rannu yn rheolaidd drwy siart sefydliadol. Ceir ymagwedd hyblyg tuag at strwythur y sefydliad a gwnaed newidiadau mewn rhai meysydd i gyfochri swyddogaethau'n well â phrosiectau ac amcanion.

54 Canfuom ymagwedd golegol tuag at weithio ar draws ffiniau cyfarwyddiaethau o ran rhannu arferion da ac o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau. Adroddodd y swyddogion fod y cyfathrebu anffurfiol a ffurfiol yn dda ac roeddent yn gadarnhaol hefyd ynghylch cynllun y swyddfa sy'n hwyluso hyn.

55 Fel y gellid disgwyl mewn sefydliad newydd, gwnaed llawer o newidiadau i grwpiau cynghori staff, llywio a gweithio yn ystod 2019. Gallai mapio'r strwythur islaw'r Bwrdd a'r pwyllgorau (timau arwain a grwpiau llywio a gweithgorau allweddol er enghraifft) helpu i sicrhau darlun clir o'r llinellau adrodd a'r oruchwyliaeth.

### Y cynnydd ar bwyntiau dysgu'r adolygiad sylfaenol

56 Yn ein hadolygiad sylfaenol, amlygwyd y pwyntiau dysgu canlynol gennym mewn cysylltiad â chynllun sefydliadol. Mae Arddangosyn 5 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 5: Cynllun sefydliadol: pwyntiau dysgu

| Pwynt dysgu | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| **Egluro ffiniau'r cylch gwaith**<br>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr i egluro'r ffiniau hynny sy'n aneglur. | Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol er mwyn egluro materion rhyngwyneb ac mae cyfarfodydd rheolaidd ag arweinwyr proffesiynol a pholisïau allweddol yn parhau er mwyn datblygu perthynas a dealltwriaeth. |

# Cynllunio strategol

57 Mae ein gwaith yn ystyried sut y mae'r Bwrdd yn pennu amcanion strategol ar gyfer y sefydliad a pha mor dda y mae AaGIC yn cynllunio i gyflawni'r rhain. Fe wnaethom archwilio trefniadau AaGIC ar gyfer monitro'r cynnydd o'i gymharu â'i amcanion. Fe wnaethom ni adolygu hefyd sut y mae AaGIC wedi gwella gwersi a ddysgwyd drwy ein hadolygiad sylfaenol.

58 Yn 2019, canfuom fod **gweledigaeth glir ac amcanion strategol ar waith gyda chynlluniau i lunio Cynllun Tymor Canolig Integredig ond bod cefnogi cynlluniau gweithredol a monitro cyflawniad y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn feysydd i weithio arnynt ymhellach.** Mae gan AaGIC weledigaeth glir a ategir gan amcanion strategol a dull dysgu ac ymgysylltu parhaus o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Er bod yr amserlenni'n dynn, mae trefniadau ar waith i sicrhau y deellir y galw a'r capasiti a bod cynlluniau galluogi wedi eu hintegreiddio. Mae angen gwaith ar y cynlluniau TG a digidol. Mae angen trefniadau clir sydd wedi eu cofnodi er mwyn goruchwylio a chraffu ar y perfformiad o'i gymharu â'r amcanion strategol.

## Pennu'r cyfeiriad strategol

Mae gan AaGIC weledigaeth glir a ategir gan amcanion strategol a ddatblygwyd gyda chyfraniad gan y Bwrdd, y staff a rhanddeiliaid a thystiolaeth o welliant parhaus

59 Mae AaGIC wedi pennu a chyfleu ei weledigaeth i'r staff a'r rhanddeiliaid. Mae ganddi bwyslais hirdymor ac mae'n rhoi cleifion wrth ei gwraidd. Er nad yw'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r egwyddorion wedi'u cyfochri â'i gweledigaeth.

60 Mae saith amcan strategol AaGIC yn deillio o'r weledigaeth ac maent wedi eu nodi'n glir yn ei Gynllun Gweithredu Blynyddol 2019-20. Ar gyfer pob amcan, mae crynodeb gweithredol yn nodi'r cerrig milltir allweddol i'w cyflawni erbyn diwedd 2020.

61 Mae AaGIC wedi datblygu a chyflwyno ei Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru gyntaf i Lywodraeth Cymru. Mae hon yn allweddol i lawer o weledigaeth ac amcanion AaGIC ac fe'i datblygwyd gan ddefnyddio ymgysylltiad helaeth ag amrywiaeth eang o dros 1,000 o randdeiliaid.

62 Datblygwyd y weledigaeth a'r amcanion drwy waith ymgysylltu mewnol helaeth a lefel resymol o waith ymgysylltu allanol (o gofio'r amserlen fer), gyda chymeradwyaeth derfynol gan y Bwrdd. Gwnaeth AaGIC fwy o waith ymgysylltu allanol ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig gan ddefnyddio gwahanol ddulliau ffurfiol ac anffurfiol megis: sioeau teithiol a digwyddiadau i randdeiliaid ledled Cymru; cyfarfodydd unigol penodol â rhanddeiliaid allweddol; a bwletinau rheolaidd i randdeiliaid. Yn AaGIC, ystyrir bod cyfathrebu yn fusnes i bawb ac yn ganolog i lwyddiant. Ymrwymodd AaGIC ar ei wefan i ddatblygu model a map o'r rhanddeiliaid, ond mae ei uchelgeisiau wedi'u cyfyngu gan alluoedd cyfrwng y GIG cyfan. Mae'n gweithio ar y materion hyn ac yn y cyfamser yn defnyddio bwletinau rheolaidd i'r rhanddeiliaid a digwyddiadau wedi'u hysbysebu i sicrhau cyfathrebu da. O ystyried pwysigrwydd a graddfa yr ymgysylltu â rhanddeiliaid, byddem yn ei annog i barhau i ddod o hyd i atebion i ddatblygu model y wefan ryngweithiol.

63 Yn ystod 2019, mae'r amcanion strategol wedi eu hadolygu a'u diweddaru am gyfnod tair blynedd y Cynllun Tymor Canolig Integredig 2020-23 er mwyn cyfochri'n well â gweithgareddau ac atebolrwydd.

## Datblygu cynlluniau strategol

Mae AaGIC wedi cryfhau ei ddull cynllunio ac mae'n bwriadu datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy ar gyfer 2020-23 er bod yr amserlenni'n dynn o ran sicrhau y deellir yr adnoddau gofynnol yn llawn a bod cynlluniau galluogi wedi eu cyfochri

64 Mae AaGIC yn gweithio yn unol â Chynllun Gweithredu Blynyddol 'cymeradwy' ar gyfer 2019-20. Mae'n defnyddio gwersi a ddysgwyd wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Blynyddol, gan gynnwys sylwadau gan Lywodraeth Cymru, o ran datblygu ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 2020-23. Roedd yr heriau allweddol a nodwyd yn cynnwys y capasiti a'r gallu i gynllunio, sicrhau ymgysylltiadau dwy ffordd effeithiol â rhanddeiliaid ac integreiddio elfennau eraill, megis cyllid, i'r cynllun. Mae'n braf gweld bod llawer o'r pwyntiau dysgu hyn (ac eraill) wedi cael sylw fel y nodir isod.

65 Cyflwynwyd cynllun amlinellol ac amserlenni ar gyfer datblygu i'r tîm Gweithredol ym mis Mai 2019, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn ym mis Gorffennaf ac ym mis Medi. Mae'r cynllun yn cynnwys

amser ar gyfer sylwadau a gwaith craffu gan y Bwrdd, rhannu cynigion cychwynnol â'r uwch dîm (sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod elfennau'r cynllun yn cydgysylltu) ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

66 Ceir swyddogaethau a chyfrifoldebau clir ar gyfer datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r tîm Cynllunio a Pherfformiad (y Tîm) yn arwain ei ddatblygiad ac mae wedi darparu deunyddiau hyfforddi a chymorth i dimau sy'n datblygu cynlluniau sylfaenol, a groesawyd ac a werthfawrogwyd. Mae'r canllawiau wedi galluogi cynnydd da mewn amser cymharol fyr, gyda dull gweithredu cyson ar draws y sefydliad. Roedd y canllawiau ar lunio amcanion ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys hyrwyddo defnydd o'r dadansoddiad PESTLE wrth ystyried cyfleoedd a bygythiadau; sicrhau bod Cymru Iachach a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu hystyried, ac ystyried y cymorth sydd ei angen gan alluogwyr. Darparwyd templedi hefyd ar gyfer datblygu cyflwyniadau prosiect y gyfarwyddiaeth. Yn rhan o'r gwersi a ddysgwyd ar ôl prosiect y Cynllun Tymor Canolig Integredig, awgrymwn y dylai AaGIC ystyried adnewyddu'r deunyddiau a'r offer hyfforddi a'u datblygu yn 'becyn cymorth' cynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

67 Ar adeg ein hadolygiad, roedd llawer o'r gwaith o asesu'r galw a'r capasiti gweithredol yn mynd rhagddo. Felly hefyd oedd datblygiad cynlluniau galluogi megis cyllid, y gweithlu, a TG a digidol. Mae'r tri chynllun galluogi hyn yn cael eu drafftio ar hyn o bryd gyda'r bwriad o'u cwblhau ym mis Rhagfyr yn barod i'w cyflwyno ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig ym mis Ionawr 2020.

68 Mae'r gwaith meincnodi yn ei ddyddiau cynnar ac nid yw wedi chwarae rhan fawr yn natblygiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn. Dylai AaGIC sicrhau bod ei feincnodau yn cyfrannu at ddatblygiad Cynllun Tymor Canolig Integredig y flwyddyn nesaf. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn adolygu a yw meincnodi wedi dechrau cefnogi'r broses o foderneiddio a gwella'r gwasanaethau.

69 Mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio a'r Cyfarwyddwr Cynllunio Cynorthwyol wedi ymgysylltu â'u grwpiau cymheiriaid perthnasol yn y GIG drwy gydol y flwyddyn ac maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cynllunio y GIG cyfan, ac mae gallu cynllunio staff yn dechrau gwella trwy hyfforddiant yr academi cynllunio.

70 Mae Cynllun Gweithredu Blynyddol 2019-20 yn cynnwys y gweithgareddau TG a digidol sydd eu hangen i gefnogi cyflawniad y Cynllun, ond nid oes strategaeth TG a digidol ar waith er bod cynlluniau i'w datblygu yn 2020-21. Mae'r amcanion TG a digidol ar gyfer 2021-23 yn cael eu drafftio ar hyn o bryd er mwyn cwblhau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig erbyn mis Ionawr 2020.

71 Mae Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol gyda chymorth y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Cynllunio Perfformiad yn parhau i fod yn gyfrifol ar lefel weithredol dros TG a digidol. Bu hwn yn drefniant dros dro, fodd bynnag mae'r gwaith o benodi Pennaeth Digidol wedi ei ohirio. Rydym yn argymell bod AaGIC yn parhau i ystyried y capasiti i gyflawni swyddogaeth Pennaeth Digidol a'r angen i benodi i'r swydd. Nid yw AaGIC wedi datblygu na chyflwyno adroddiadau dangosyddion perfformiad TG a digidol rheolaidd eto y gellir eu defnyddio i fonitro perfformiad.

### Y cynnydd ar bwyntiau dysgu'r adolygiad sylfaenol

72 Yn ein hadolygiad sylfaenol, amlygwyd y pwyntiau dysgu canlynol gennym mewn cysylltiad â chynllunio strategol. Mae Arddangosyn 6 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 6: Gwella cynllunio strategol: pwyntiau dysgu

| Pwynt dysgu | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| **Ymgysylltu â rhanddeiliaid**<br>Bydd amseriad yr ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, a'r sylwadau iddynt, yn hollbwysig i'ch cylch cynllunio chi a'u cylch cynllunio nhw. Ceisiwch ddatblygu arwyddion clir ar y wefan i randdeiliaid, gan gynnwys hyfforddeion a darpar hyfforddeion. | Ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid drwy gydol 2019.<br>**Ymrwymodd AaGIC ar ei wefan i ddatblygu model a map o'r rhanddeiliaid ac o ystyried pwysigrwydd a graddfa yr ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym yn argymell ei fod yn parhau i ddod o hyd i atebion i ddatblygu model y wefan ryngweithiol.** |
| **Datblygu Cynllun Gweithredu Blynyddol a Chynllun Tymor Canolig Integredig**<br>Gweithredu ar wersi allweddol a ddysgwyd o'r Cynllun Gweithredu Blynyddol wrth ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig. Ystyried ffyrdd o gynyddu'r capasiti a'r gallu cynllunio yn y tymor byr a hir. | Cafwyd tystiolaeth glir o'r gwersi a ddysgwyd drwy'r dull o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn 2019.<br>**Dylai AaGIC sicrhau bod y gwaith meincnodi, sydd ar gam datblygu cynnar ar hyn o bryd, yn cyfrannu at ddatblygiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol.**<br>**Yn rhan o'r gwersi a ddysgwyd ar ôl prosiect y Cynllun Tymor Canolig Integredig, dylai AaGIC ystyried adnewyddu'r deunyddiau a'r offer hyfforddi a'u datblygu yn 'becyn e-gymorth' cynllunio ar gyfer y dyfodol.** |
| **Strategaethau a chynlluniau gweithredol**<br>Meddyliwch am sut y byddwch yn mynd ati i wneud dewisiadau hyddysg ar gynigion cystadleuol oherwydd adnoddau cyfyngedig. | Mae'r Pennaeth Cynllunio a pherfformiad yn datblygu dull symlach o gyflwyno achos busnes a ddylai fynd i'r afael â hyn yn rhannol. |

## Monitro'r broses o gyflawni'r cynllun strategol

Bellach, mae gan AaGIC system o adrodd ar berfformiad a dangosfwrdd ar waith, ond mae dangosyddion perfformiad allweddol yn dal i gael eu datblygu, ac argymhellir trefniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu ar y perfformiad o'i gymharu â'r amcanion strategol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig

73 Fel y nodwyd yn gynharach, nid oes unrhyw fframwaith rheoli perfformiad wedi'i ddogfennu ar waith sy'n nodi beth gaiff ei adrodd ac i bwy, amledd a goruchwyliaeth y Bwrdd/Pwyllgorau o reoli perfformiad. Fodd bynnag, er bod gwaith yn mynd rhagddo, mae adroddiad perfformiad a dangosfwrdd ar waith. Mae fformat yr adroddiad perfformiad yn glir ac mae'n nodi'r cynnydd o ran amcanion strategol yn dda drwy'r rhaglenni a'r prosiectau sy'n sail iddynt. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn cynnwys cerrig milltir, terfynau amser, swyddogion cyfrifol, statws y cynnydd a sgôr Coch Oren Gwyrdd. Adroddir yn ychwanegol ar yr eithriadau ar gyfer unrhyw brosiectau â sgôr goch ar y raddfa Coch Oren Gwyrdd. Mae'r dangosfwrdd yn crynhoi hyn ac yn darparu mesurau data allweddol, a bydd monitro yn cryfhau wrth i'r adroddiad a'r dangosfwrdd ddatblygu.

74 Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol na thargedau ar waith y gall y Bwrdd eu defnyddio i graffu ar berfformiad, nid ydynt wedi'u cysylltu'n glir ag unrhyw amcanion strategol, ac fel yr adroddwyd yn gynharach, mae'r cynnwys yn dal i gael ei ddatblygu. Er efallai nad yw'n briodol i'r holl amcanion strategol fod â dangosyddion perfformiad allweddol mesuradwy, byddem yn disgwyl fel arfer i ddangosyddion perfformiad allweddol fod wedi'u cysylltu ag amcan strategol.

75 Cyflwynwyd yr adroddiad perfformiad am y tro cyntaf yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi, ac yna cyflwynwyd 'Adolygiad Canol y Flwyddyn o'r Cynllun Blynyddol' i'r Bwrdd mis Tachwedd er mwyn darparu'r newyddion diweddaraf ynglŷn â'r ymrwymiadau yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 19/20 ar bwynt canol y flwyddyn. Mae'r ddogfen honno'n darparu disgrifiad naratif manwl o'r cynnydd o'i gymharu â phob amcan strategol a'r prosiectau sy'n sail iddynt, ond nid oes dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig na data o'r adroddiad perfformiad y byddem yn disgwyl eu gweld wrth eu hochr.

76 Mae gwerth nodi hefyd, o ystyried bod rhan sylweddol o'r gweithgareddau dyddiol yn cynnwys newid, y byddem yn annog AaGIC i ystyried yr angen i sefydlu swydd rheoli rhaglen i reoli'r newid.

### Y cynnydd ar bwyntiau dysgu'r adolygiad sylfaenol

77 Yn ein hadolygiad sylfaenol, amlygwyd y pwyntiau dysgu canlynol gennym mewn cysylltiad â monitro'r cynllun strategol. Mae Arddangosyn 7 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 7: Gwella'r broses o fonitro'r cynllun strategol: pwyntiau dysgu

| Pwynt dysgu | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| **Dangosyddion perfformiad allweddol a monitro cyflawniad**<br>Byddwch yn glir ynghylch dangosyddion perfformiad o'u cymharu â dangosyddion perfformiad allweddol. Nodwch feincnodau addas. Peidiwch ag anghofio darparu cipolwg gyda'r data. | Mae'r gwaith yn mynd rhagddo.<br>**Gweler argymhelliad A7** |

# Rheoli adnoddau ariannol

78 Fe wnaethom ystyried y camau y mae AaGIC yn eu cymryd i gyflawni cydbwysedd ariannol ac i greu cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Rydym wedi asesu'r sefyllfa ariannol, y dull cynllunio ariannol, rheolaethau ariannol a stiwardiaeth, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Fe wnaethom ni adolygu hefyd y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r pwyntiau dysgu o'n hadolygiad sylfaenol.

79 Canfu ein gwaith yn 2019 fod **rheolaethau a pholisïau ariannol ar waith, bod gwelliannau i adroddiadau ariannol yn parhau a bod gwaith i gryfhau'r broses o reoli asedau a chontractau wedi cychwyn.** Er gwaethaf problemau staffio cynnar, mae rheolaethau a pholisïau ariannol allweddol wedi eu blaenoriaethu trwy adrodd i'r Bwrdd yn amserol. Erbyn hyn, mae gan AaGIC y capasiti a'r gallu angenrheidiol ar gyfer cynllunio ariannol, ac mae swyddogaethau a chyfrifoldebau clir wedi'u sefydlu. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud mewn cysylltiad â rheoli asedau a chontractau er mwyn hwyluso'r broses o gynllunio, llywodraethu a defnyddio asedau'n dda, gan barhau i ddatblygu adroddiadau ariannol i'r Bwrdd.

## Cynllunio ariannol

### Mae AaGIC wedi sefydlu ei drefniadau cynllunio ariannol, ond mae angen iddo ddeall ei refeniw a'i anghenion cyfalaf yn y dyfodol yn well

80 Ar ôl dechrau anodd oherwydd newidiadau mewn staff allweddol a dibyniaeth ar staff cyllid dros dro, erbyn hyn mae gan AaGIC y capasiti a'r gallu angenrheidiol ar gyfer cynllunio ariannol ac mae swyddogaethau a chyfrifoldebau clir wedi eu sefydlu. Mae lluniad y cynllun ariannol un flwyddyn ar gyfer 2019-20 a Chynllun Comisiynu a Hyfforddi 2022-23 (a gafodd gyfraniadau cyllid sylweddol) yn llywio datblygiad y cynllun ariannol tair blynedd gyntaf, a ddylai fod yn barod i'w gynnwys yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2020-23.

81 Mae'n ymddangos bod cyllidebau wedi'u seilio ar dybiaethau realistig gyda gwybodaeth a gadwyd gan staff o gyrff rhagflaenol, a phrofiad helaeth o gynllunio ariannol GIG Cymru gan newydd-ddyfodiaid sy'n dod â gwybodaeth a sgiliau gwerthfawr. Mae cyllidebu ar gyfer meysydd gwariant newydd megis costau cyfalaf a chostau llety eraill lle nad yw'r wybodaeth hanesyddol ar gael yn fwy heriol.

82 Mae AaGIC yn gweithio ar sefydlu Strategaeth Rheoli Asedau, Cofrestr Asedau Sefydlog a rhestr gyflawn o'r holl brydlesi a ddelir. Bydd y rhain yn helpu i sicrhau y gellir rheoli, cynnal ac adnewyddu adeiladau a chyfarpar yn ôl yr angen, ac i lywio trafodaethau cynllunio a chyllidebu gyda Llywodraeth Cymru. Er mai dim ond £100,000 yw'r dyraniad cyfalaf dewisol blynyddol cyfredol a bod gofynion cyfalaf AaGIC yn gymharol isel, mae'n bwysig sicrhau bod darlun clir o'r cyfarpar a'r asedau eraill ar gael ar gyfer defnydd a chynllunio effeithiol.

83 O gofio bod yr elfen fwyaf o wariant wedi'i chomisiynu drwy sefydliadau eraill, mae angen amcangyfrif yn sylweddol wrth gynllunio ariannol a chyllidebu, yn arbennig yn ymwneud â recriwtio, defnydd bwrsarïau a chyfraddau yr hyfforddeion sy'n gadael cyn gorffen eu cwrs ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae cynnydd da yn cael ei wneud wrth sefydlu'r sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol yn AaGIC a bydd cynllunio ariannol a rheoli'r gyllideb yn parhau i esblygu. Tanwariodd AaGIC yn ystod ei gyfnod ariannol cyntaf hyd at 31 Mawrth 2019, felly nid oes gofyniad brys i nodi arbedion, i wella costau nac i lunio cynlluniau arbedion, ond dylai AaGIC sicrhau ei fod yn gwneud hynny pan fo modd.

#### Y cynnydd ar bwyntiau dysgu'r adolygiad sylfaenol

84 Yn ein hadolygiad sylfaenol, amlygwyd y pwyntiau dysgu canlynol gennym mewn cysylltiad â chynllunio ariannol. Mae Arddangosyn 8 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 8: Gwella Cynllunio Ariannol: pwyntiau dysgu

| Pwynt dysgu | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| Sicrhau bod strategaethau caffael, contractio a chomisiynu cysylltiedig ar waith gyda threfniadau rheoli clir. | Mae'r Cynllun Comisiynu a Hyfforddi wedi ei gymeradwyo ac mae staff allweddol sy'n rhan o'r broses yn deall y trefniadau caffael. |
| Llunio cofrestr lesau a chofrestr asedau sefydlog. | Mae AaGIC yn bwriadu cwblhau'r rhain er mwyn darparu rhestr o lesau ac asedau fel yr oeddent ar 1 Ebrill 2020. |

| Pwynt dysgu | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| | Sicrhau bod hyn yn cael ei wneud a llunio rhestr o asedau i sicrhau bod yr asedau nad ydynt ar y gofrestr asedau sefydlog yn cael eu cofnodi hefyd er mwyn cael darlun llawn. |
| Datblygu strategaeth rheoli asedau. | Nid yw hyn wedi ei wneud ar hyn o bryd ac fe'i hystyrir yn flaenoriaeth isel oherwydd lefel isel yr asedau a ddelir. |

## Rheolaeth a rheolaethau ariannol

### Mae AaGIC yn sefydlu rheolaethau rheoli ariannol effeithiol ond mae rhagor i'w wneud o ran rheoli asedau a chontractau

85 Mae’r cyfrifoldebau cyllidebol yn glir wrth i ddeiliaid cyllidebau ymrwymo i gyllidebau a chael cymorth rheoli gan Bartneriaid Busnes Cyllid. Mae'r gefnogaeth a ddarperir wedi gwella yn ystod y flwyddyn wrth i swyddi gwag gael eu llenwi, ond hoffai rhai deiliaid cyllidebau gael mwy o gymorth gyda threfniadau contractio. Cyhoeddwyd canllawiau yn nodi'r broses o bennu'r gyllideb. Defnyddiwyd hyn ar gyfer y Cynllun Ariannol Blynyddol ac maent yn cael eu defnyddio ar gyfer y cynllun ariannol tair blynedd.

86 Lluniwyd Cofrestr Contractau a Chytundebau ym mis Tachwedd 2019 a oedd yn nodi nifer o drefniadau y mae angen eu hailystyried a’u diweddaru ac y mae angen i drydydd partïon gytuno arnynt, gan gynnwys contractau sydd wedi dod i ben. Mae'r gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu i sicrhau bod trefniadau yn cydymffurfio â threfniadau caffael cyhoeddus a bod y risg y caiff gwasanaeth ei dynnu’n ôl ar fyr rybudd a'r angen am weithredoedd tendrau sengl yn cael eu lleihau a'u rheoli.

87 Caiff Cofrestr Buddiannau ei chynnal gan Ysgrifennydd y Bwrdd a chaiff ei hadolygu'n ffurfiol bob blwyddyn. Mae Polisi Datgan Diddordeb wedi ei ymgorffori yn y Polisi ar gyfer Safonau Ymddygiad Busnes. Bwriedir adrodd y gofrestr yn flynyddol i'r pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

88 Cymeradwyodd y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Strategaeth Atal Twyll ym mis Mai 2019. Darparodd y Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG 30 diwrnod o wasanaeth i AaGIC yn ystod 2019-20, a chodi ymwybyddiaeth drwy gyfrwng cyflwyniadau, cyfarwyddiadau a chylchlythyrau oedd y rhan fwyaf o’r gwaith. Hyd yma, i’r uwch dîm arwain a’r staff cyllid y darperid y cyflwyniadau, a bwriedir darparu rhagor o gyflwyniadau. Gan fod AaGIC yn sefydliad newydd, nid yw wedi cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol eto.

89 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith ychwanegol er mwyn archwilio effeithiolrwydd y trefniadau atal twyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mae’n bwriadu cyhoeddi ei ganfyddiadau yn ystod haf 2020. Bydd ei waith yn cael ei lywio gan waith maes lleol a ddechreuodd ddiwedd 2019.

#### Y cynnydd ar bwyntiau dysgu'r adolygiad sylfaenol

90 Yn ein hadolygiad sylfaenol, amlygwyd y pwyntiau dysgu canlynol gennym mewn cysylltiad â rheolaeth ariannol. Mae Arddangosyn 9 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 9: Gwella rheolaeth ariannol: pwyntiau dysgu

| Pwynt dysgu | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| Nodi'r contractau a llunio cofrestr contractau | Mae hyn wedi ei wneud bellach, ond mae wedi tynnu sylw at waith ychwanegol sydd ei angen i roi trefniadau cytundebol priodol ar waith er mwyn darparu nifer o wasanaethau.<br>**Dylai AaGIC sicrhau bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo'n gyflym fel bod pob contract o fewn ei gyfnod cytundebol er mwyn sicrhau:**<br>• **cydymffurfiaeth â rheoliadau caffael;**<br>• **mai dim ond gwasanaethau angenrheidiol sydd wedi eu cynnwys;**<br>• **bod y risg o weithredoedd tendrau sengl yn cael ei lleihau; a**<br>• **bod y sefydliad yn cael gwerth am arian.** |

## Goruchwylio a chraffu ar y perfformiad ariannol

### Mae'r trefniadau adrodd a chraffu wedi gwella yn ystod y flwyddyn ac mae gwybodaeth ariannol fanylach yn cael ei darparu bellach er ein bod yn argymell gwelliant parhaus

91 Ers mis Gorffennaf 2019, mae'r Bwrdd wedi derbyn adroddiad cyllid manylach, gan gynnwys atodiad yn nodi perfformiad ariannol pob cyfarwyddiaeth. Mae'r adroddiad yn rhwydd ei ddeall ac yn rhoi'r sefyllfa ariannol yn ei chyd-destun gyda gweithgareddau cynllunio adnoddau a materion perfformiad allweddol eraill megis nifer y myfyrwyr.

92 Ers mis Hydref 2019, mae'r Bwrdd hefyd wedi derbyn yr adroddiad Monitro Dychweliadau Misol llawn a gyflwynir i Lywodraeth Cymru. Mae dull tryloyw o'r fath yn ganmoladwy, er y gellid gwella adroddiadau'r Bwrdd yn fwy trwy ddarparu crynodeb haws ei ddeall. Yn gyffredinol, gellid ystyried defnyddio dangosfyrddau, dangosydd perfformiad allweddol a chofnodi eithriadau. Mae'r tîm adrodd ar gyllid yn bwriadu adolygu adroddiadau gan eu cymharu â'r arferion da a nodir yn y Good Practice for Financial Board and Committee Reporting gan y Finance Academy. Rydym hefyd yn argymell y dylid adolygu nodweddion da adroddiad cyllid fel y nodir yn Atodiad 1 ein hadroddiad 2016 'Comparative Report of NHS Reporting' (a ddarparwyd yn flaenorol i Ysgrifennydd y Bwrdd).

#### Y cynnydd ar bwyntiau dysgu'r adolygiad sylfaenol

93 Yn ein hadolygiad sylfaenol, amlygwyd y pwyntiau dysgu canlynol gennym mewn cysylltiad â darparu adroddiadau ariannol. Mae Arddangosyn 10 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 10: Gwella’r broses o ddarparu adroddiadau ariannol i'r Bwrdd: pwyntiau dysgu

| Pwynt dysgu | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| Cyfle i edrych ar arferion da o ran cyflwyno adroddiadau ariannol i'r Bwrdd gyda'r nod o ddarparu cipolwg ar feysydd gweithredol a defnyddio cyllid fel galluogwr gwirioneddol. | Mae AaGIC wedi gwella'r wybodaeth a ddarperir i'r Bwrdd sy’n cynnwys mwy am berfformiad ariannol pob Cyfarwyddiaeth erbyn hyn. Rhoddir manylion hefyd am y camau y mae angen eu cymryd i fantoli’n ariannol.<br>Mae'n bwriadu adolygu canllawiau arferion gorau y Finance Academy wrth gyflwyno adroddiadau ariannol i'r Bwrdd er mwyn mireinio'r wybodaeth a gyflwynir.<br><br>**Dylai AaGIC barhau i ddatblygu gwelliannau drwy ystyried y canlynol hefyd:**<br>• **nodweddion da adroddiad cyllid fel y'i nodir yn Atodiad 1 ein hadroddiad 2016 ‘Comparative Report of NHS Reporting’; ac**<br>• **adolygu Adroddiadau Monitro Misol i'r Bwrdd.** |

## Perfformiad ariannol

### Mae AaGIC yn rhagweld sefyllfa o fantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn sy’n dod i ben ar 31 Mawrth 2020

94 Adroddodd AaGIC danwariant refeniw o £68,000 ar gyfer y chwe mis gweithredu hyd at 31 Mawrth 2019 a mantolodd y gyllideb o’i chymharu â’i gyllideb cyfalaf. Gweithiodd yn agos gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod, i fonitro'r sefyllfa ariannol a chytuno ar newidiadau cyllidebol terfynol i gyfateb yn fras â’u hanghenion refeniw. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon ar y dull hwn yn ystod y cyfnod pontio hwn.

95 Ar gyfer y saith mis hyd at 31 Hydref 2019, mae AaGIC yn adrodd tanwariant net o £1,234,090 (1% o'i gyllideb adnoddau refeniw) yn ei gyllideb adnoddau refeniw ac mae’n rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Ceir amrywiannau sylweddol yn y Gyfarwyddiaeth Nyrsio (tanwariant o £1,658,917) a’r Cyfarwyddiaethau Meddygol a Fferyllol (gorwariant o £961,633) a deellir eu bod yn amlygu'r anhawster wrth bennu cyllidebau mewn cyfnod pan fo niferoedd cynyddol o fyfyrwyr yn cael eu recriwtio i leoedd hyfforddi. Mae'r newid yn nifer y myfyrwyr a ariennir yn effeithio ar y broses o bennu cyllidebau comisiynu hefyd a bydd yn parhau i wneud hynny wrth symud ymlaen. Caiff hyn ei egluro yn yr adroddiad ariannol ac mae’r amrywio o fewn goddefiad rhesymol o ystyried maint y cyllidebau a heriau recriwtio.

96 Ystyrir cynigion ar gyfer cyllideb gyfalaf o £100,000 ar hyn o bryd. Bydd AaGIC yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod dyraniadau terfynol yn rhesymol ac yn realistig.

# Rheoli cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu

97 Fe wnaethom ni ystyried y camau y mae AaGIC yn eu cymryd i sicrhau bod ei weithlu yn cael ei reoli'n dda ac yn gynhyrchiol. Aseswyd trefniadau gennym ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi a datblygu a chymryd camau i ymgysylltu â staff drwy wrando arnynt a mynd i'r afael ag anghenion lles. Adolygwyd gennym hefyd y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r pwyntiau dysgu o'n hadolygiad sylfaenol.

98 **Mae gwaith ardderchog o ymgysylltu â staff wedi helpu i ysgogi diwylliant cadarnhaol ac mae cynlluniau ar waith i wella trefniadau rheoli'r gweithlu.** Ceir pwyslais cryf ar ddiwylliant sefydliadol, ymgysylltu â staff, a lles y staff. Mae'r ôl-groniad o arfarniadau swyddi wedi ei glirio ac mae strategaethau ar waith i reoli swyddi gwag. Mae cynlluniau hyfforddi a datblygu yn mynd rhagddynt ac mae gwaith wedi’i gynllunio i wella'r lefelau a gofnodir o arfarniadau staff a’r hyfforddiant statudol a gorfodol a gwblheir.

## Rheoli'r gweithlu

### Mae AaGIC wedi clirio ei ôl-groniad o arfarniadau swyddi, mae ganddo gyfraddau salwch isel, ac mae ganddo strategaethau ar waith i reoli ei swyddi gwag, fodd bynnag mae lle i gryfhau metrigau perfformiad y gweithlu

99 Amlygodd ein hadolygiad sylfaenol heriau o ran recriwtio i swyddi allweddol a chwblhau arfarniadau swyddi yn amserol yn unol â bandiau cyflog Agenda ar gyfer Newid GIG Cymru. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r sefydliad wedi parhau i gyflawni ei agenda, er yr effeithiwyd ar gyflymder y gwaith mewn rhai meysydd.

100 Mae'n gadarnhaol y cliriodd AaGIC yr ôl-groniad o arfarniadau swyddi ym mis Medi 2019. Erbyn hyn, mae 22 aelod o staff sydd wedi eu hyfforddi i ymgymryd â dyletswyddau paru swyddi y panel, gan gynnwys dau sy’n aelod o undeb llafur. Mae hyn wedi helpu i fynd i'r afael â llawer o'r dagfa o ran recriwtio.

101 Er ei bod yn ymddangos bod gan AaGIC nifer sylweddol o swyddi gwag o hyd (38 ym mis Rhagfyr 2019), mae’r rhain yn peri risg isel i’r sefydliad gan fod strategaethau ar waith i’w rheoli, megis defnyddio staff asiantaeth a phobl ar secondiad dros dro. O gofio bod y sefydliad yn esblygu o hyd, ar brydiau y mae wedi penderfynu ychwanegu at y gweithlu wrth i anghenion busnes godi a dal swyddi nes bod y gwasanaeth yn barod i recriwtio iddynt, er enghraifft y swyddogaethau trawsnewid yn y Gyfarwyddiaeth Nyrsio. Hefyd, mae swyddi cyfwerth ag amser llawn yn is gan fod llawer ohonynt yn swyddi rhan amser. Mae AaGIC yn gobeithio recriwtio i swyddi gwag o fewn 12 mis ac ym mis Rhagfyr 2019 yr oedd naw swydd (6.3 cyfwerth ag amser llawn) wedi’u hysbysebu. Fodd bynnag, bu’n anodd recriwtio i rai swyddi gwag, er enghraifft y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Efallai y bydd yn ddefnyddiol adolygu’r rhwystrau i recriwtio’n llwyddiannus i’r swyddi hyn.

102 Mae AaGIC yn dilyn 'Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith GIG Cymru' ac mae wedi cynllunio cwrs rheoli absenoldeb ar gyfer rheolwyr. Mae'r hyfforddiant yn gweithredu ar sail ataliol o ran atal salwch, gydag addasiadau wedi eu teilwra ar gyfer staff, a dull rheoli tosturiol. Ymddengys fod dull cadarnhaol o sicrhau les a diwylliant yn cael ei adlewyrchu yn ei lefelau isel o absenoldeb oherwydd salwch: 0.7% ym mis Mehefin 2019, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 5.4%.

103 Creffir ar faterion gweithlu drwy'r adroddiad perfformiad, a adroddwyd i'r Bwrdd am y tro cyntaf ym mis Medi 2019. Mae'r adran perfformiad corfforaethol yn manylu ar fetrigau'r gweithlu gyda naratif cysylltiedig. Mae'r dangosfwrdd perfformiad yn dangos niferoedd y staff sydd mewn swyddi, ynghyd â niferoedd yr ymadawyr a niferoedd y dechreuwyr. O ystyried y materion sy'n ymwneud â swyddi gwag a'r defnydd o staff asiantaeth ar hyn o bryd, dylai AaGIC ystyried cynnwys data ynglŷn â swyddi gwag, staff asiantaeth a chyfraddau trosiant.

104 Mae'r pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn craffu'n fanylach ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu, ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am feysydd megis arfarnu swyddi, recriwtio a chydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol.

### Y cynnydd ar bwyntiau dysgu'r adolygiad sylfaenol

105 Yn ein hadolygiad sylfaenol, amlygwyd y pwyntiau dysgu canlynol gennym mewn cysylltiad â rheoli'r gweithlu. Mae Arddangosyn 11 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 11: Gwella'r broses o reoli'r gweithlu: pwyntiau dysgu

| Pwynt dysgu | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| **Swyddi gwag**<br>Sicrhau bod adroddiadau'n glir ynghylch a yw swyddi'n wag neu'n swyddi posibl ar gyfer y dyfodol. | Mae'r sefydliad yn glir bellach o ran pa swyddi sy'n wag, pa swyddi sydd wedi eu llenwi gan weithwyr asiantaeth a pha swyddi wedi eu rhoi o'r neilltu am y tro. |

## Hyfforddi a datblygu

### Mae AaGIC yn datblygu ei gynlluniau hyfforddi a datblygu, mae wedi cyflwyno cynllun arfarnu sy'n seiliedig ar werthoedd, ac mae ganddo gynlluniau ar waith i wella'r cyfraddau arfarnu isel a hyfforddiant gorfodol

106 Canfu ein hadolygiad sylfaenol fod AaGIC, yn ystod ei chwe mis cyntaf, wedi canolbwyntio ar ddatblygu Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol, gan ddarparu hyfforddiant statudol a gorfodol, a rhoi proses arfarnu staff ar waith.

107 Bwriedir lansio'r Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadau (sydd hefyd yn cynnwys cynllun y gweithlu) ym mis Rhagfyr 2019. Ymgynghorwyd â staff ar y strategaeth ddrafft mewn sioeau teithiol ledled Cymru ac adroddwyd y sylwadau i'r tîm gweithredol, a bwriedir rhannu'r canlyniadau â'r staff yn fuan. Mae'r staff hefyd wedi cael y cyfle i gyfrannu at gynllun hyfforddi a datblygu ar wahân, sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd.

108 Mae'n braf gweld bod AaGIC yn bwriadu cael ymagwedd ‘gyrfaoedd’ wrth gyflogi staff. Mae’n ystyried cynllunio ar gyfer olyniaeth, hyfforddi a mentora, a chyfleoedd am newid swyddi i fyny ac i’r ochr. Mae rhaglen arwain a rheoli wrthi'n cael ei datblygu hefyd, gyda'r nod o'i lansio'r flwyddyn nesaf.

109 Er hynny, adroddwyd ym mis Hydref 2019 mai 49.5% oedd cyfradd hyfforddiant statudol a gorfodol AaGIC, sy'n is o lawer na'r targed cenedlaethol o 85%. Mae'r holl fodiwlau hyfforddiant statudol a gorfodol wedi bod ar gael ar Gofnod Staff Electronig ers mis Ebrill 2019. Amlygodd adroddiad i'r pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Tachwedd 2019 fod y Tîm Pobl yn ceisio gwella cydymffurfiaeth trwy gyfathrebu â staff trwy sawl fforwm a’i fod yn cynnig hyfforddiant ar y Cofnodion Staff Electronig. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â chofnodi cydymffurfiaeth staff sy'n gweithio ar draws mwy nag un sefydliad. Mae’r prif gymhlethdod yn ymwneud â sut i gael sicrwydd yr ymgymerwyd â hyfforddiant statudol a gorfodol mewn cyrff iechyd eraill, heb eu cyfrif dwywaith. Adroddodd AaGIC wrth symud ymlaen y bydd yr adroddiad perfformiad yn rhannu cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant i staff craiff AaGIC a staff ar fathau eraill o gontractau. I wella cydymffurfiaeth â’r targed cenedlaethol, efallai hoffai AaGIC ddefnyddio dull wedi’i seilio ar risgiau i flaenoriaethu hyfforddiant statudol a gorfodol.

110 Ym mis Ebrill 2019, cyflwynodd AaGIC ei gynllun arfarnu sy'n seiliedig ar werthoedd. Fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â’r staff a'i nod yw helpu staff i adolygu eu perfformiad gan ddefnyddio 23 ymddygiad y sefydliad bob chwe mis. Gwnaed diwygiadau i'r system ar gyfer staff meddygol (yn amodol ar system arfarnu ar wahân) er mwyn osgoi dyblygu. Anogir rheolwyr i ddefnyddio dull hyfforddi o gynnal trafodaethau arfarnu gyda phwyslais ar helpu’r staff i fod â pherchenogaeth. Mae arfarniad 360 gradd sy’n seiliedig ar werthoedd wedi ei wneud yn orfodol i reolwyr, ond mae ar gael i weithwyr eraill hefyd. Rydym yn annog AaGIC i gysylltu’r dull 360 gradd yn glir â Chynllun Datblygu Personol unigolyn yn hytrach na'i arfarniad. Gall hyn fod yn ffordd fwy effeithiol o gael gafael ar sylwadau gonest a gwerthfawr. Mae’r Tîm Pobl yn cwblhau ymarfer asesu ansawdd ar sampl o arfarniadau a gwblhawyd.

111 Ym mis Hydref 2019, cofnodwyd mai cyfradd arfarnu AaGIC oedd 11.4% yn unig, sy’n is o lawer na’r targed cenedlaethol o 85%. Mae adroddiad i'r pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Tachwedd 2019 yn awgrymu bod y gyfradd isel o arfarniadau a gwblhawyd yn deillio o wybodaeth anghywir ar y Cofnod Staff Electronig. Mae cofnodion a ddelir gan y Tîm Pobl, yn awgrymu mai 76% yw'r gyfradd arfarnu wirioneddol. Mae'r Tîm Pobl yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o’r Cofnodion Staff Electronig ac mae cynlluniau ar waith i integreiddio arfarniadau i'r system Cofnodion Staff Electronig. Rydym yn disgwyl i AaGIC ddatblygu'r mater hwn yn gyflym a gweld y gyfradd arfarnu a chywirdeb data'r Cofnodion Staff Electronig yn gwella yn ystod y misoedd nesaf.

## Y cynnydd ar bwyntiau dysgu'r adolygiad sylfaenol

112 Yn ein hadolygiad sylfaenol, amlygwyd y pwyntiau dysgu canlynol gennym mewn cysylltiad â hyfforddiant a datblygiad. Mae Arddangosyn 12 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 12: Gwella hyfforddiant a datblygiad: pwyntiau dysgu

| Pwynt dysgu | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| **Hyfforddiant Statudol a Gorfodol**<br>Sicrhau bod darparu hyfforddiant statudol a gorfodol yn flaenoriaeth. | Mae gan AaGIC gyfradd gydymffurfio isel o ran hyfforddiant statudol a gorfodol (49.5%) ac nid yw'n cyflawni'r targed cenedlaethol o 85%. Mae'r Tîm Pobl yn cymryd camau i wella cydymffurfiaeth.<br>**Dylai AaGIC ystyried gweithredu mewn modd sydd wedi'i seilio ar risg i flaenoriaethu hyfforddiant yn ei gamau gweithredu i wella cydymffurfiaeth â'r targed cenedlaethol.** |

## Ymgysylltu â staff a lles

### Mae gan AaGIC werthoedd ac ymddygiadau sefydliadol cadarn, mae'n gweithredu ar ganlyniadau'r arolwg staff ac yn canolbwyntio ar les y staff ac ar ymgysylltu â nhw

113 Canfu ein hadolygiad sylfaenol fod AaGIC yn meithrin diwylliant sefydliadol cryf, ac mae ymgysylltu â'r staff yn nodwedd gadarnhaol. Roedd canlyniadau arolwg staff GIG AaGIC yn ffafriol o'u cymharu â chyrff eraill y GIG.

114 Mae AaGIC yn parhau i hyrwyddo ei werthoedd a'i ymddygiadau. Mae'n eu cyflwyno mewn sesiynau ymsefydlu, yn eu harddangos ar bosteri ac yn sicrhau eu bod yn fan cychwyn ar gyfer datblygu polisïau. Mae'r uwch-arweinwyr yn cefnogi ac yn arddangos y gwerthoedd, er enghraifft, mae'r Prif Weithredwr yn cynnal sesiynau drws agored yn chwarterol ac yn cynnig sesiynau unigol i'r staff.

115 Roedd gan AaGIC gyfradd ymateb o 65% i arolwg staff y GIG yn 2018 a chyflwynwyd y canlyniadau i'r staff yn y gynhadledd staff ym mis Mehefin 2019. Mewn ymateb i'r canfyddiadau, mae cynllun gwella arolwg staff wedi ei ddatblygu. Goruchwylir y cynllun gan y Tîm Gweithredol a'r Grŵp Diwylliant sy'n cael ei arwain gan y staff. Bydd y Grŵp Diwylliant (y Grŵp Ymgysylltu â Staff erbyn hyn) yn gyfrifol am roi'r cynllun gwella ar waith a pherchen arno. Mae sylwadau gan staff yn nodi efallai nad oedd yr arolwg yn berthnasol i'r holl grwpiau staff wedi arwain at newid y dull gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf, a'r bwriad o ddefnyddio arolwg gwyntyllu y GIG cyfan a ddatblygwyd ac a ddarperir gan y GIG ar gyfer y GIG.

116 Mae gan AaGIC bwyslais cryf ar les y staff. Mae ganddo Rwydwaith Iechyd a Lles a chysylltiadau â'r rhwydwaith lles cenedlaethol. At ei gilydd, mae'r ddau rwydwaith wedi datblygu asesiad o anghenion iechyd i staff y GIG ei gwblhau, sy'n cael ei dreialu gan AaGIC. Mae dull AaGIC o ddefnyddio ei hun fel bwrdd profi ar gyfer mentrau newydd ar gyfer y GIG cyfan yn gadarnhaol ac un enghraifft yn unig ydyw o sut y mae'n bwriadu byw'r gwerthoedd y mae'n eu harwain ledled Cymru. Daeth yr asesiad anghenion iechyd i ben ddiwedd mis Hydref 2019 a bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio i ddatblygu strategaeth lles AaGIC. Yn y cyfamser, mae AaGIC yn cynllunio ac yn cynnal sawl menter lles. Mae'r rhain yn cynnwys ffrwythau am ddim ar ddiwrnod cyflog, cyflwyno awr o les wythnosol,

archwilio’r dewisiadau ar gyfer rhaglen cymorth i weithwyr[2], teithiau amser cinio a chonsesiwn yn y gampfa leol. Mae hefyd yn archwilio ffyrdd o’i gwneud yn haws i staff sy’n gweithio o bell nad ydynt wedi eu lleoli yn y De fynychu cyfarfodydd.

117 Mae AaGIC yn gweithio tuag at sawl achrediad a gydnabyddir yn genedlaethol megis achrediad Stonewall a'r Safon Iechyd Corfforaethol. Y mae wedi ymrwymo i Amser Newid a hwn fydd y sefydliad cyntaf yng Nghymru i gael y symbol Cyfathrebu, sy'n cydnabod cyfathrebu â phobl anabl.

[2] Ar hyn o bryd mae AaGIC yn defnyddio rhaglen cymorth i weithwyr Byrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ond mae'r amseroedd aros yn hir.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru